**System Gofrestru Medr – Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol ac i barchu eich preifatrwydd. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Medr yn prosesu gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad â'r Gofrestr Darparwyr Addysg Drydyddol (y Gofrestr), gan gynnwys ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr, y broses ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau, a gwybodaeth a gyhoeddir ar y gofrestr gyhoeddus.

Dylid darllen yr hysbysiad hwn ochr yn ochr â Hysbysiad Preifatrwydd corfforaethol Medr, sy'n rhoi esboniad cyffredinol o'r modd y mae Medr yn prosesu gwybodaeth bersonol ar draws ei holl swyddogaethau. Mae'r hysbysiad hwn sy'n ymwneud yn benodol â'r Gofrestr yn egluro sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio ar gyfer y gwasanaeth hwn.

---

**2. Beth yw'r Gofrestr Darparwyr Addysg Drydyddol?**

Cofrestr statudol yw'r Gofrestr a gedwir gan Medr yn unol â'i gyfrifoldebau rheoleiddio dros addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae'n cofnodi gwybodaeth am ddarparwyr sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru gyda Medr, sy'n cael eu hasesu ar gyfer hynny, a (lle bônt yn llwyddiannus) sy'n cael eu cofrestru, ynghyd ag amodau penodol cofrestru.

---

**3. Pa wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu**

Wrth weithredu'r Gofrestr, gall Medr brosesu'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol:

- Enwau, teitlau swyddi a manylion cyswllt proffesiynol unigolion sy'n gweithredu ar ran darparydd (er enghraifft, cysylltiadau i drafod ceisiadau neu uwch swyddogion)
- Manylion mewngofnodi a chyfrif ar gyfer defnyddwyr awdurdodedig sy'n cyrchu'r system Gofrestru
- Cyfathrebiadau rhwng Medr a darparwyr, gan gynnwys gohebiaeth ac ymholiadau
- Cofnodion asesu, penderfyniadau, a logiau archwilio sy'n gysylltiedig â cheisiadau
- Dogfennau wedi'u huwchlwytho gan ddarparwyr fel tystiolaeth i gefnogi cais, er enghraifft, gwybodaeth sy'n ymwneud â pholisïau ynghylch cydraddoldeb, lles staff neu fyfyrwyr, neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Nid ydym yn ceisio casglu data personol am ddysgwyr drwy'r system Gofrestru. Disgwylir i ddarparwyr sicrhau bod yr wybodaeth a gyflwynir yn berthnasol, yn angenrheidiol, ac yn gymesur â'r broses gofrestru.

---

**4. Pam rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol**

Mae Medr yn prosesu gwybodaeth bersonol drwy'r Gofrestr er mwyn:

- Derbyn ac asesu ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr
- Penderfynu a yw darparwyr yn bodloni'r amodau cofrestru
- Cofnodi penderfyniadau rheoleiddio a chynnal trywydd archwilio

- Monitro cydymffurfiaeth ag amodau cofrestru
- Cyhoeddi a chynnal cofrestr gyhoeddus o ddarparwyr cofrestredig, fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth
- Cyfathrebu â darparwyr yn gysylltiedig â'r broses gofrestru

---

**5. Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu**

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol drwy'r Gofrestr yw bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i Medr, ac i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar Medr fel corff sy'n rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol.

---

**6. Cyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus**

Pan fydd darparydd wedi'i gofrestru'n llwyddiannus, mae'n ofynnol i Medr gyhoeddi gwybodaeth benodol ar fersiwn o'r Gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd. Gall hyn gynnwys:

- Enw a statws cofrestredig y darparydd
- Categori cofrestru a dyddiad cofrestru
- Rhai amodau cofrestru a datganiadau cydymffurfio safonedig sy'n wynebu'r cyhoedd

Cyn cyhoeddi gwybodaeth:

- Dim ond is-set ddiffiniedig a chyfyngedig o wybodaeth a ddewisir i'w chyhoeddi
- Ni chyhoeddir nodiadau asesu mewnol na sylwadau ar y broses benderfynu
- Caiff gwybodaeth sy'n wynebu'r cyhoedd ei hadolygu i sicrhau ei bod yn gywir a, lle bo'n ofynnol, ei bod ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg

---

**7. Gyda phwy yr ydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol**

Mae mynediad at wybodaeth bersonol ar y Gofrestr wedi'i gyfyngu i staff awdurdodedig Medr ar sail yr angen i wybod.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon onid:

- yw'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith
- yw'n angenrheidiol i gynnal ein swyddogaethau rheoleiddio (er enghraifft, archwilwyr neu gyrff arolygu)
- oes gennym gytundebau rhannu data priodol neu gytundebau diogelu ar waith

---

**8. Sut y byddwn yn diogelu eich gwybodaeth bersonol**

Mae Medr wedi sefydlu mesurau diogelwch ffisegol, technegol a sefydliadol i ddiogelu gwybodaeth bersonol a brosesir drwy'r Gofrestr, gan gynnwys:

- Mesurau rheoli mynediad ar sail rôl a dulliau dilysu diogel
- Cofnodion archwilio o gamau a newidiadau a wnaed o fewn y system
- Lletya diogel o fewn gwasanaethau Microsoft Power Platform
- Data wedi'u storio yn y DU yn unig
- Polisïau hyfforddi staff a llywodraethu gwybodaeth

---

**9. Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol**

Cedwir gwybodaeth bersonol a brosesir drwy'r Gofrestr yn unol â pholisïau rheoli a chadw cofnodion Medr.

Yn gyffredinol:

- Cedwir cofnodion o geisiadau a phenderfyniadau i gefnogi atebolrwydd rheoleiddiol a gofynion archwilio
- Mae gwybodaeth a gyhoeddir ar y gofrestr gyhoeddus yn adlewyrchu statws cofrestru cyfredol darparydd
- Ni chedwir gwybodaeth bersonol am gyfnod hwy nag sydd ei angen i'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer.

---

**10. Eich hawliau**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hawl i:

- Ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol
- Gofyn am gael cywiro gwybodaeth anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu prosesu a gyflawnir ar sail tasg gyhoeddus
- Gofyn am gael cyfyngu ar brosesu mewn amgylchiadau penodol

Mae'r hawliau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfreithiol, yn enwedig lle bo'n ofynnol i Medr gadw neu gyhoeddi gwybodaeth er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Gellir defnyddio'r manylion cyswllt isod i wneud ceisiadau'n gysylltiedig â gwybodaeth a gedwir ar y Gofrestr.

---

**11. Rheolydd data a manylion cyswllt**

Medr yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth bersonol a brosesir drwy'r Gofrestr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu ynghylch sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio, cysylltwch ag:

**Ebost:** info@medr.cymru

**Cyfeiriad:**

Medr

2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Diogelu Data Medr:

**E-bost:** swyddogdiogeludata@medr.cymru

Ein cyfeirnod cofrestru diogelu data yw ZB552558.

---

**12. Cwynion**

Os ydych chi'n anfodlon â'r modd yr ymdriniwyd â'ch gwybodaeth bersonol, gallwch drafod hyn â Medr yn y lle cyntaf. Os na all Medr ddatrys y mater fel eich bod yn fodlon, gallwch hefyd wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio diogelu data y DU.

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113
Ebost: casework@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk

---

**13. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru lle bo angen, er enghraifft os bydd cwmpas neu weithrediad y Gofrestr yn newid neu os bydd gofynion cyfreithiol newydd yn berthnasol.

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 12 Mawrth 2026.